



Parc Coedwig Coed y Brenin
Coed y Brenin Forest Park



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Llwybrau Sgwteri Symudedd Oddi-ar-y-Ffordd Coed y Brenin Coed y Brenin Off-Road Mobility Scooter Trails



Elwybr Pont Ty'n-y-groes Trail

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales



Cymru
Wales



Llwybr Pont Penmaen Trail

Archwiliwch y goedwig ar sgwter symudedd oddi-ar-y-ffordd.

Mae'r llwybrau hyn sydd ag arwyddion yn caniatáu i bobl â phroblemau symudedd fwynhau diwrnod allan gyda gweddill y teulu gan ddefnyddio sgwteri symudedd oddi-ar-y-ffordd.

P'un a ydych eisiau cael taith fer i lawr i'r safle picnic ar lan yr afon neu daith drwy'r coed ac i mewn i'r Parc Coedwig ehangach, mae'r llwybrau hyn yn ffordd ardderchog o archwilio Coed y Brenin.

Mae'r pum llwybr hefyd yn llwybrau cerdded ardderchog!

Explore the forest on an off-road mobility scooter.

These waymarked trails allow visitors with mobility issues to enjoy a day out with the rest of the family using off-road mobility scooters.

Whether you want a short trip down to the riverside picnic area or journey through the woods and into the wider Forest Park, these trails provide a great way to explore Coed y Brenin.

All five trails are also fantastic walking routes!

Defnyddio'r llwybrau'n ddiogel

Os nad ydych wedi bod ar y llwybrau hyn o'r blaen, rhwch gynnig ar lwybr afon Eden ac yna llwybr Cefndeuddwr yn gyntaf er mwyn ymgynffwrdd â'r tir cyn symud ymlaen at y llwybrau hirach.

Arhoswch ar y llwybrau sydd ag arwyddion oherwydd efallai na fydd llwybrau eraill y goedwig yn addas ar gyfer sgwter symudedd.

Gofalwch fod rhywun gyda chi bob amser rhag ofn i chi fynd i drafferthion a bod angen anfon rhywun i ffonio am help, oherwydd gall signal ffôn symudol fod yn dameiddio yn y goedwig.

Pan fydd dringfeydd a disgynfeydd serth, rhaid i chi ddefnyddio modd "crwban" ar eich sgwter symudedd - cadwch lygad yn agored am yr arwyddion wrth i chi fynd o amgylch y llwybrau!

Ar y llwybrau hirach dylech fynd â dillad glaw, dillad cynnes a menig - yn barod ar gyfer eich antur!

Mae'r llwybrau wedi'u dylunio a'u hasesu mewn partneriaeth â Countryside Mobility a'r Disabled Ramblers Association.

Using the trails safely

If you haven't been on these trails before, you should try the Afon Eden then Cefndeuddwr trails first to get used to the terrain before progressing to the longer routes.

Stay on the waymarked trails, as other tracks in the forest may not be suitable for the mobility scooter.

Always go accompanied in case you get into difficulty and need to send someone to call for help, as mobile signal can be patchy in the forest.

Where climbs and descents are steep, you must engage "tortoise" mode on the mobility scooter - look out for the signs as you go around the trails! The forest road surfaces can be varied with occasional mud, loose materials or potholes.


On the longer routes you should go prepared with waterproofs, warm clothing, gloves, and a sense of adventure!

The trails have been designed and assessed in partnership with Countryside Mobility and the Disabled Ramblers Association.



Llwybr Cefndeuddwr Trail

Llwybrau hir | Long trails




Llwybrau hir Long trails

- 1 Llwybr y Gwaith Pwldo Bloomeries Trail
- 2 Llwybr Pont Ty'n-y-groes Pont Ty'n-y-groes Trail
- 3 Llwybr Pont Penmaen Pont Penmaen Trail

Allwedd Key

- parcio parking
- parcio hygyrch accessible parking
- parcio (tâl) parking (charge)
- toiledau toilets
- toiledau hygyrch accessible toilets
- gwybodaeth information
- panel dehongli interpretation panel
- caffi hygyrch accessible café
- llwybr hygyrch accessible trail
- llwybr sgwteri symudedd oddi-ar-y-ffordd off-road mobility scooter trail
- llwybr darganfod discovery trail
- llwybr cerdded walking trail
- llwybr sain MP3 MP3 audio trail
- maes chwarae hygyrch accessible play area
- ardal bicnig picnic area
- ardal bicnig hygyrch accessible picnic area
- mainc bench
- postyn gorffwys resting post
- barbecwii barbecue
- cyfeirbost wedi ei rifo numbered waymarker
- golygfyn viewpoint
- defnyddio 'modd crwban' ar sgwteri engage tortoise mode
- ffordd A A-road
- isffordd minor road
- ffordd goedwig forest road
- llwybr cyhoeddus public footpath
- adnodd hanesyddol historical feature

Llwybrau byr | Short trails



Llwybrau byr Short trails

- 4 Llwybr Afon Eden Cylchdaith Glan yr Afon Afon Eden Trail Riverside Loop
- 5 Llwybr Cefnduuddwr Cefnduuddwr Trail



Gwybodaeth mewn Argyfwng:
Lleoliad Cychwyn:
 Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin, Ganllwyd
 Cyfeirnod Grid AO: **SH 723 268**
 What3Words: **disgrifiwch.gleision.llyfnhau**
Argyfwng ar y llwybrau Ffoniwch 999 a gofyn am yr Heddlu, ac yna'r tîm Achub Mynydd.
 Cofiwch ar baran o'r llwybr ydych chi neu rif y postyn arwyddo agosaf.
Gall signal ffonau symudol fod yn anwadal ar hyd y llwybrau.

Emergency Information:
Start Location:
 Coed y Brenin Visitor Centre, Ganllwyd
 OS Grid Reference: **SH 723 268**
 What3Words: **choppers.bowls.puzzles**
Emergency out on the trails
Phone 999
Ask for Police, then Mountain Rescue.
 Make a note of the name of the trail you're on and the number on the closest waymarker post.
There is patchy mobile reception out on the trails.

Byddwch yn ymwybodol:
 Weithiau mae angen i ni gau neu ddargyfeirio llwybrau tra byddwn yn gwneud gwaith cynnal a chadw neu weithrediadau coedwig - mae hyn er eich diogelwch chi felly dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau.
 Fe allech ddod ar draws cerddwyr, cŵn, beiciau mynydd, ceffylau neu gerbydau ar unrhyw adeg.


Please be aware that:
 We sometimes need to close or divert trails while we carry out maintenance work or forest operations - this is for your safety so please follow any instructions.
 You may come across walkers, dogs, mountain bikes, horses, timber haulage wagons and other vehicles at any time.

Llwybr Afon Eden

Cylchdaith Glan yr Afon

Afon Eden Trail


Riverside Loop

 **Hawdd Easy**

Pellter | Distance: 0.8m | 1.3km

Amser | Time: ¾ awr | hour

Dringo | Climb: 95tr/ft | 29m



Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus a drwyddedwyd dan Drwydded. Llywodraeth Agored v3.0. Contains public sector information licensed under the Open Government Licence v3.0.



UCHAFBWYNTIAU

Llwybr teuluol i safle picnic glan yr afon gydag afon Eden yn byrlymu'n braf dros y creigiau.

DISGRIFIAD

Mae'r llwybr hwn sy'n 2m o led gydag arwyneb da yn mynd i lawr at yr afon gyda graddiant o ddim mwy na 10% | 1 mewn 10, a cheir manau gorffwys bob 100m. Wrth i chi adael yr afon, byddwch yn dechrau dringo'n ôl tuag at y ganolfan ymwelwyr ar raddiant hawdd o ddim mwy na 16% | 1 mewn 6. Ceir meinciau gorffwys bob 150m o leiaf ar y rhan hon.

Er mwyn diddanu plant ifanc beth am gymryd taflen llwybr darganfod anifeiliaid, neu lawrlwytho'r llwybr sain MP3 a gwrando ar stori am hanes a bywyd gwylt y goedwig.

Sganiwch y cod QR am lwybr sain afon Eden, neu gallwch ei lawrlwytho o: cyfoethnaturiol.cymru/llwybrausain


HIGHLIGHTS


A family trail to the riverside picnic area with the Afon Eden rushing over the rocks.


DESCRIPTION


The trail follows a well-surfaced 2m wide path down to the river with a gradient of no more than 10% | 1 in 10, and resting points every 100m. As you leave the river, you start to climb back towards the visitor centre on an easy gradient of no more than 16% | 1 in 6. There are resting benches at least every 150m on this section.


To keep young ones entertained why not pick up an animal discovery trail leaflet, or download the MP3 audio trail and listen to the story of the forest's wildlife and history. Scan the QR code for the Afon Eden Audio Trail or download from: naturalresources.wales/audiotrails



 Cymraeg



 English



Mae allwedd y symbolau ar dudalen 4 a 5.
See pages 4 and 5 for symbol key

Llwybr Cefndeuddwr Cefndeuddwr Trail



Hawdd
Easy




Pellter | Distance: 0.8m | 1.3km

Amser | Time: ¼ awr | hour

Dringo | Climb: 128tr/ft | 39m



PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE



UCHAFBWYNTIAU

Coetir braf sy'n hyfryd yn yr hydref, yn llawn clychau'r gog yn y gwanwynn ac sydd â golygfeydd gwych o fynydd Y Garn drwy'r flwyddyn.

DISGRIFIAD


Dilynwch y llwybr 1.5m o led, ag arwyneb da, drwy goetiroedd llawn clogfeini, gan ddringo'n raddol i olygfan Cefndeuddwr a'r ardal bicnic. Graddiant cyfartalog y llwybr yw 12% | 1 mewn 8 a cheir meinciau gorffwys bob 150m o leiaf. Mae troadau serth, anodd ar y ddringfa olaf i'r olygfan a'r ddisgynfa olaf i'r ganolfan ymwelwyr lle bydd rhaid defnyddio 'modd crwban' ar sgwter symudedd.

HIGHLIGHTS

Atmospheric woodland with stunning autumn colours, bluebells in the spring and year-round views to Y Garn mountain.

DESCRIPTION

Follow the 1.5m wide, well-surfaced trail, through boulder-strewn woodlands, gently climbing to the Cefndeuddwr viewpoint and picnic area. The trail has an average gradient of 12% | 1 in 8 and there are resting benches at least every 150m. There are steep tight bends on the final descent to the visitor centre where you must engage tortoise mode on the mobility scooter.



Mae allwedd y symbolau ar dudalen 4 a 5.
See pages 4 and 5 for symbol key

Llwybr y Gwaith Pwdlo Bloomeries Trail




Cymedrol
Moderate



Pellter | Distance: 2.8m | 4.5km

Amser | Time: 1½-2 awr | hours

Dringo | Climb: 482tr/ft | 147m



UCHAFBWYNTIAU

Dilynwch yn ôl troed milwyr Rhufeinig hyd at waith haearn canoloesol sydd wedi'i guddio yn y goedwig.

DISGRIFIAD


Llwybr yno ac yn ôl gan ddilyn ffyrdd coedwig yn bennaf a rhannau addas o'r llwybr. Mae'r llwybr yn dringo ochr y bryn yn raddol cyn dilyn Ffordd Rufeinig Sarn Helen i safle'r hen waith haearn segur. Gallwch ddysgu am y Gwaith Pwdlo drwy banel dehongli ar y safle. Mae troadau serth, cyfyng ar y ddringfa i olygfan Cefndeuddwr a'r disgyniad terfynol i'r ganolfan ymwelwyr. Ceir 7 o feinciau ar hyd y llwybr lle gallwch orffwys a mwynhau'r olygfa.

HIGHLIGHTS

Following in the footsteps of Roman soldiers to a medieval ironworks hidden in the forest.



DESCRIPTION

An out-and-back route mainly following forest roads and purpose-built sections of trail. The route gradually climbs the hillside before following the Sarn Helen Roman road to the site of the long disused iron works. You can learn all about these "Bloomeries" on an interpretation panel on site. There are tight bends on the final descent to the visitor centre where you must engage tortoise mode on the mobility scooter. There are 7 benches along the route where you can rest and take in the view.




Llwybr Pont Ty'n-y-groes Pont Ty'n-y-groes Trail



Llwybr hir | Long trail

Anodd Strenuous  


Pellter Distance:	6.6m 10.6km
Amser Time:	3½-4 awr hours
Dringo Climb:	299tr/ft 91m



Llwybr byr | Short trail

Anodd Strenuous  

Pellter Distance:	3.6m 5.7km
Amser Time:	2-2½ awr hours
Dringo Climb:	226tr/ft 69m



UCHAFBWYNTIAU

Wrth bont Bailey, ceir golygfeydd syddanol o geunant yr afon a beth am daith i weld 'y Brenin', sef y goeden dalaf yn y goedwig.

DISGRIFIAD


Llwybr hirach ond mwy gwastad yno ac yn ôl gan ddilyn yr afon ar hyd ffyrdd coedwig i'r ardal bicnic, cyfleusterau toiled a choed ffynidwydd Douglas anferth ym Mhont Ty'n-y-groes. Gallwch fyrhau'r llwybr trwy droi ar ôl "pont Bailey" dros afon Mawddach. Mae darn byr o ffordd darmac dawl ar y llwybr hwn - trowch oleuadau'r sgwter symudedd ymlaen a'r goleuadau rhybuddio i wneud eich hun yn fwy gweladwy, gan eu diffodd pan fyddwch yn ôl ar ffordd y goedwig. Ceir 6 mainc ar y llwybr lle gallwch orffwys a mwynhau'r olygfa.

HIGHLIGHTS

Breathtaking views into the river gorge at the Bailey bridge and a trip to see 'the King', the tallest tree in the forest.

DESCRIPTION

A longer, but flatter out-and-back route following the river along forest roads to the picnic site, toilet facilities and giant Douglas fir trees at Pont Ty'n-y-groes. You can shorten the route by turning around after the "Bailey bridge" across the Afon Mawddach river. There is a short section of quiet tarmac road on this route - turn on the mobility scooter lights and hazard lights to make yourself more visible, turning them off when you're back onto the forest road. There are 6 benches along the trail where you can rest and take in the view.



Llwybr Pont Penmaen

Pont Penmaen Trail


Llwybr hir | Long trail

 Anodd Strenuous  ○○○○ 




Pellter | Distance: 5.3m | 8.5km

Amser | Time: 3-3½ awr | hours

Dringo | Climb: 875tr/ft | 267m




Llwybr byr | Short trail

 Anodd Strenuous  ○○○○ 

Pellter | Distance: 3.7m | 5.9km

Amser | Time: 2-2½ awr | hours

Dringo | Climb: 633tr/ft | 193m



UCHAFBWYNTIAU

Golygfeydd o ddŵr byrlymus afon Gain, y goedwig o'i chwmpas a mynyddoedd y Rhinogydd.

DISGRIFIAD


Llwybr cylchol hirach ar ffyrdd coedwig, yn arwain i ogledd anghysbell y Parc Coedwig, at bont droed dros afon Gain. Gallwch fyrhau'r llwybr trwy ddilyn yr arwydd tu hwnt i olygfan Tyddyn Gwladys. Mae rhai rhannau mwy garw ar y llwybr hwn a disgynfeydd a dringfeydd serth lle bydd angen ichi ddefnyddio 'modd crwban' ar sgwter symudedd. Ceir 9 mainc ar hyd y llwybr a bwrdd picnic ger yr afon. Nid oes cyfleusterau toiled ar y llwybr hwn ar ôl gadael y ganolfan ymwelwyr.

HIGHLIGHTS

Views of the tumbling Afon Gain river, the surrounding forest and Rhinogydd mountains.

DESCRIPTION

A longer circular route on forest roads, heading into the remote north of the Forest Park, to a footbridge across the Afon Gain river. You can shorten the route by following the sign beyond the Tyddyn Gwladys viewpoint. There are some rougher sections of track on this trail and steep descents and climbs where you must engage tortoise mode on the mobility scooter. There are 9 benches along the trail and a picnic table by the river. There are no toilet facilities on this trail after leaving the visitor centre.





**Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin
Coed y Brenin Visitor Centre
Dolgefeiliau, Dolgellau
LL40 2HZ**

0300 065 3000
www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales

Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod inni:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000
cyfoethnaturiol.cymru

If you would like this publication in a different format, please let us know:
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
0300 065 3000
naturalresources.wales

NATU299 02/25



Mae coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®
 Natural Resources Wales forests have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%
 Printed on 100% recycled paper



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
 Sponsored by
Welsh Government